# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Mai 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6318

## 276

Dechreuodd yr eitem am 13.34

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

### Datganiad gan y Llywydd

Nododd y Llywydd mai hwn oedd cyfarfod cyntaf Senedd Cymru a bod y newid enw yn adlewyrchu'r ystod o bwerau a chyfrifoldebau y mae'r Senedd yn eu gweithredu ar ran pobl Cymru.

Dywedodd y Llywydd, er bod enw'r sefydliad wedi newid yn swyddogol, mai'r flaenoriaeth o hyd, fel dros yr wythnosau diwethaf, yw ymateb i argyfwng coronafeirws a bod dinasyddion Cymru, yn fwy nag erioed o'r blaen, yn disgwyl Senedd genedlaethol gref i weithio er budd pobl Cymru.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 13.35

## 2 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 13.35

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu'r capasiti i ddarparu strategaeth brofi, olrhain ac ynysu o ran coronafeirws ar gyfer Cymru, yn dilyn adroddiadau mai cyngor diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru yw y gallai fod angen 30,000 o brofion y dydd?

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.49

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb i Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 14:53

**Am 15.57 gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud.**

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 16.11

## 6 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 16.57

Daeth y cyfarfod i ben am 18.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Mai 2020**